


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Dringo'r Wal

Digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl 2009

Camau ar gyfer newid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Gwybodaeth Hygyrch**
Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys fformat sain, print bras a Braille ar gais.

**Cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad**
e-bost: equalities.team@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 02920 898650

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 01 |
| Ynglŷn â'r digwyddiad | 02 |
| Themâu | 04 |
| Crynodeb o faterion a godwyd mewn gweithdai ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu | 06 |
| Sylwadau'r Wal | 10 |
| Ar ôl yr adroddiad – beth nesaf? | 11 |
| Gwybodaeth Ddefnyddiol | 12 |



# 01 Cyflwyniad

Dathlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl 2009 trwy glustnodi diwrnod cadarnhaol ar gyfer y pwnc sylfaenol sef mynediad i ddemocratiaeth. Trwy gydweithrediad grŵp llywio o bobl anabl a sefydliadau cymorth anabledd cawsom gyfle i wneud argymhellion ar gyfer sicrhau mynediad haws a chyfartal i ddemocratiaeth.

Roedd yr amseriad yn briodol gan fod y cyfnod yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau lle mae'r ganran sy'n pleidleisio yn bwysig: etholiad cyffredinol y DU, cyfres o ddigwyddiadau pleidleisio ar gyfer y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad, etholiad y Cynulliad yn 2011 ac etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2012.

Trafododd y Gynhadledd y cynnydd yn yr achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl.  Cafwyd cyfraniadau allweddol gan Uned Ddiogelwch Heddlu De Cymru a Chymru Ddiogelach, gan ymdrin â chanfyddiad a realiti'r pwnc anodd hwn. Bydd yr adroddiad hwn, sy'n rhoi manylion am y drafodaeth bwysig hon, yn cael ei ddosbarthu i gyrff cyhoeddus, grwpiau a sefydliadau ledled Cymru.

Fel hyn, mae Comisiwn y Cynulliad yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu ein hamcanion ar gyfer cydraddoldeb i bob dinesydd yng Nghymru.

**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas CG AC**
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Ynglŷn â'r Digwyddiad

**Beth yw Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl?**
Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl am y tro cyntaf gan y Cenhedloedd Unedig yn gynnar yn yr 1980au ac mae'n darparu cyfle i hyrwyddo dealltwriaeth o faterion anabledd a hyrwyddo cefnogaeth ar gyfer urddas, hawliau a lles pobl anabl.

Mae'r diwrnod, sy'n cael ei ddathlu ar 3 Rhagfyr bob blwyddyn, yn darparu'r cyfle i unigolion a sefydliadau arddangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb i bobl anabl drwy ddarparu cyfle i bobl anabl godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, lleisio'u pryderon a dathlu eu cyflawniadau.

**Pwy gynhaliodd y digwyddiad a'r rhesymau am wneud hynny?**
Ar 3 Rhagfyr 2009, cynhaliwyd digwyddiad gan dîm Cydraddoldeb a Mynediad y Cynulliad Cenedlaethol, a oedd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cael mynediad i ddemocratiaeth a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas ddemocrataidd. Un o themâu eraill y diwrnod oedd mynd i'r afael â throseddau casineb yn erbyn pobl anabl.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y materion sy'n ymwneud â'r tair thema a godwyd gan bobl a oedd yn bresennol. Caiff ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad a'i anfon at wleidyddion a sefydliadau ledled Cymru er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth am faterion sy'n effeithio ar bobl anabl ac i sbarduno newid cadarnhaol.

**Ble cynhaliwyd y digwyddiad a beth ddigwyddodd?**
Cynhaliwyd digwyddiad y prynhawn yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Trafododd pedwar grŵp o bobl fynediad i wybodaeth wleidyddol, mynediad i ddemocratiaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Roedd trafodaethau'n cynnwys y gynulleidfa o bobl anabl yn adrodd eu profiadau personol o ddefnyddio prosesau democratiaeth a chael gafael ar wybodaeth a'u canfyddiadau o droseddau casineb.

Gydol y digwyddiad, anogwyd pobl i ysgrifennu sylwadau neu awgrymiadau a oedd yn gysylltiedig â themâu'r digwyddiad a'u rhoi ar 'wal' a oedd wedi'i gosod dros dro yn y Senedd. Roedd y wal yn gyfle i bobl fynegi rhai o'u pryderon ac awgrymu ffyrdd posibl ymlaen. Arhosodd y wal er mwyn i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ei gweld yn y Senedd ar ôl y digwyddiad. Mae rhai o'r sylwadau a wnaed i'w gweld yn adran Sylwadau'r wal yr adroddiad hwn.

Gyda'r nos, cynhaliwyd derbyniad yn y Senedd gyda chyfle i'r gynulleidfa rwydweithio a mwynhau adloniant a chael eu herio gan sgets fer a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd gan ddau gynrychiolydd. Diddanwyd y gynulleidfa gan ddarlleniad byr o waith sydd wedi'i gyhoeddi gan awdur anabl.

## 03 Pwy fynychodd y digwyddiad?

Mynychodd pobl anabl o bob cwr o Gymru’r digwyddiad. Cafwyd cymorth grŵp llywio o ddefnyddwyr gwasanaethau anabl i gynllunio’r digwyddiad. Roedd cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) hefyd yn bresennol ac yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

**Pa aelodau o’r grŵp llywio a gynorthwyodd i gynllunio’r digwyddiad?**

Roedd y grŵp llywio a gynorthwyodd i gynllunio ein digwyddiad yn cynnwys cynrychiolwyr o:

–Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro
–Fforwm Pobl Anabl Abertawe
–Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
–Cyngor Cymru i'r Deillion
–Anabledd Dysgu Cymru
–Grŵp Mynediad Caerdydd
–Rosie Moriarty-Simmonds; Ymgynghoriaeth Materion Anabledd RMS



Perfformiad fin nos gan Kay Jenkins ac Andrew Hubbard

**Democratiaeth hygyrch**
Canolbwyntiodd trafodaethau'r gweithdai ar ba mor ymarferol oedd pleidleisio ac edrychwyd ar y rhwystrau i fynediad yn ystod y broses gofrestru a phleidleisio. Roedd y drafodaeth yn seiliedig ar Etholiadau'n Eithrio, sef arolwg ac ymgyrch Scope Cymru dros orsafoedd pleidleisio hygyrch a'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad yn 2007, ar Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru, sydd ar gael yn:

Amlygodd adroddiad y Pwyllgor y canlynol:
– mae grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol brynu cyfarpar hygyrch ar gyfer gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad;
– sefydlwyd y Grŵp Cynllunio Etholiadau gan Lywodraeth Cymru yn 2005 i ddarparu trosolwg strategol o faterion etholiadol yng Nghymru;
– gall arolygwyr gorsafoedd pleidleisio archwilio hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio;
– mae safonau perfformio ar gyfer hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio ar waith a dylai swyddogion canlyniadau sicrhau bod gan bob gorsaf bleidleisio y cyfarpar ffisegol sy'n angenrheidiol i'w gwneud mor hygyrch â phosibl.

Yn ddiweddar, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth weithredu argymhellion ei adroddiad. Mae trawsgrifiad ei gyfarfod ar 2 Mawrth ar gael yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees.htm

**Mynediad i wybodaeth wleidyddol**
Roedd trafodaethau'r gweithdai wedi nodi'r materion canlynol:
– mae angen cyngor ar ble gellir dod o hyd i wybodaeth am bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr etholiad;
– mae angen i bobl anabl fod yn fwy rhagweithiol wrth gynorthwyo cyrff gwleidyddol i gyflwyno gwybodaeth hygyrch;
– mae'r wybodaeth am etholiadau'n cael ei darparu ar bapur yn unig fel arfer ac nid yw'r iaith yn hawdd ei deall;
– diffyg ymwybyddiaeth o ymgeiswyr.

**Troseddau casineb yn erbyn pobl anabl**
Trafododd dau grŵp y mater hwn. Hwyluswyd grŵp un gan ddau heddwas o Heddlu De Cymru a chanolbwyntiodd trafodaethau ar sut mae'r heddlu yn canfod ac yn ymchwilio i honiadau o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl.

Hwyluswyd grŵp dau gan Mark Williams, Cydgysylltydd Trechu Casineb/Dathlu Amrywiaeth gyda Chymru Ddiogelach. Canolbwyntiodd ar y profiadau a gafodd y grŵp o droseddau casineb a'r atebion posibl ar gyfer gostwng a chael gwared ar droseddau casineb. Daeth y ddau grŵp at ei gilydd ar ddiwedd y sesiwn i gymharu nodiadau a darparu adborth.

Roedd amseriad y drafodaeth am droseddau casineb yn briodol gan fod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi ar 3 Rhagfyr y byddai'n cynnal ymchwiliad ffurfiol i weithredoedd awdurdodau cyhoeddus i ddileu aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd a'i achosion. Mae gwybodaeth am yr ymchwiliad ar gael yn:
http://www.equalityhumanrights.com/hafan

Gobeithiwn y bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cymryd sylw o'r materion a godir yn yr adroddiad hwn.

Mae Mencap yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fynd i'r afael â throseddau casineb anabledd, yn enwedig mewn perthynas â phobl ag anableddau dysgu a allai fod yn dioddef troseddau casineb. Mae gwybodaeth bellach am hyn ar gael yn adran Gwybodaeth ddefnyddiol yr adroddiad hwn.



Cynrychiolwyr yn dod at ei gilydd i rannu gwybodaeth

# Crynodeb o faterion a godwyd ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu

## Mynediad i ddemocratiaeth

Safbwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau:
- Fel rhywun sydd â nam ar y golwg, sut byddaf yn gwybod wrth bleidleisio bod y trydydd parti yn dethol fy hoff ddewis?
- Pam na allwn gael yr opsiwn o bleidleisio ar-lein?
- Dylai staff mewn gorsafoedd pleidleisio fod yn fwy ymwybodol o bobl anabl;
- Gall ffurflenni cofrestru etholiadol fod yn rhy gymhleth ac anodd i'w defnyddio ar-lein. Gallant fod yn anodd eu defnyddio, yn enwedig i bobl sy'n dibynnu ar ddarllenyddion sgrin. Gall y ffurflenni copi caled hefyd fod yn anodd eu darllen a'u llenwi. Gallai fersiynau Easyread fod ar gael, yn enwedig ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu;
- Mae llawer o orsafoedd pleidleisio yn dal i fod yn anhygyrch i bobl sydd â namau corfforol a/neu nam ar y synhwyrau. Yn aml, mae'r arwyddion yn wael a gall fod yn anodd i bobl sydd â nam ar y golwg eu darllen;
- Dylai pobl anabl allu pleidleisio mewn ffordd sy'n parchu eu hurddas a'u hawliau dynol;
- Mae gwybodaeth am yr etholiad ar daflenni ar gael ar bapur yn unig, ac mewn print mân fel arfer.

Awgrymiadau ar gyfer gweithredu:

### Cam Gweithredu 1
Dylai Comisiwn Etholiadol y DU ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg a dulliau amgen o wneud y prosesau cofrestru etholiadol a phleidleisio yn haws i bobl anabl. Gellid defnyddio templedi ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg gyda throshaen Braille. Gellid defnyddio ffonau testun a negeseuon testun i gofrestru pleidleiswyr. Gellid defnyddio peiriannau pleidleisio electronig mewn gorsafoedd pleidleisio gyda negeseuon a gwybodaeth glyweled.

### Cam Gweithredu 2
Dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod gan orsafoedd pleidleisio ledled Cymru well mynediad ffisegol ac arwyddion hygyrch, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; dylai gorsafoedd pleidleisio ledled Cymru yn hygyrch i bobl sydd â nam ar y synhwyrau neu namau corfforol. Dylai staff dderbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb i bobl anabl a gwybodaeth am gymorth cyfathrebu i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth hygyrch i gwsmeriaid.

Cam Gweithredu 3

Hwyrach y gallai'r Comisiwn Etholiadol ystyried cydweithio â grwpiau anabledd i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu cyfranogiad pleidleiswyr mewn etholiadau. Gallai hyn gynnwys:

- defnyddio'r technolegau sydd ar gael i alluogi pobl sydd â nam ar y golwg i fwrw eu pleidlais heb i drydydd parti orfod ymyrryd;
- creu ffurflen gofrestru i bleidleisio mewn etholiad hygyrch sydd ar gael ar-lein ac all-lein;
- darparu gwybodaeth etholiadol mewn fformatau hygyrch;
- dymchwel rhwystrau i bleidleisio a nodir gan bobl anabl.

**Mynediad i wybodaeth wleidyddol**

Safbwyntiau a godwyd mewn trafodaethau:

- Mae diffyg ymwybyddiaeth o bryd i'w gilydd am ofynion pobl anabl gan bleidiau gwleidyddol wrth gynhyrchu gwybodaeth a diffyg cysylltiad wyneb yn wyneb ag ymgeiswyr hefyd; nid yw rhai gwleidyddion yn rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd mewn fformat hygyrch;
- Dylai pobl anabl fynd ati i herio'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael mewn fformatau hygyrch;
- Mae defnyddio iaith a therminoleg yn gallu dieithrio pobl;
- Mae llawer o wefannau yn dal i fod yn amhygyrch i bobl anabl, yn ben-naf oherwydd nad yw darparwyr gwasanaethau'n ymwybodol neu'n sicr o'r hyn sy'n ofynnol. Dylid cynnwys pobl wrth ddylunio gwefannau a llunio gwybodaeth er mwyn goresgyn llawer o'r problemau y mae pobl sydd â nam ar y synhwyrau yn eu hwynebu.

Awgrymiadau ar gyfer gweithredu:

Cam Gweithredu 4

Dylai pleidiau gwleidyddol, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sicrhau bod eu gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, gan gynnwys Braille, typetalk, e-bost, Easyread, cyfathrebu wyneb yn wyneb ac Iaith Arwyddion Prydain. Dylai gwefannau fod yn hygyrch i bob defnyddiwr a chynnwys mynediad i ddefnyddwyr byddar a phobl sydd â nam ar y golwg.

Cam Gweithredu 5

Gallai pleidiau gwleidyddol ystyried darparu hyfforddiant i'w haelodau ar gydraddoldeb i bobl anabl a sgiliau cyfathrebu hygyrch a darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch. Dylai gwleidyddion ddefnyddio Cymraeg/Saesneg clir a phlaen ac osgoi jargon.

Cam Gweithredu 6

Dylai pleidiau gwleidyddol, y Comisiwn Etholiadol, Awdurdodau Lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ystyried ei gwneud yn haws i bobl anabl ddarparu adborth/awgrymiadau ar gyfer gwella gwasanaethau a sicrhau bod awgrymiadau'n cael eu rhoi ar waith fel sy'n briodol.

Safbwyntiau a godwyd mewn trafodaethau:

– Dywedodd rhai unigolion eu bod yn rhy ofnus i gwyno ar ôl dioddef aflonyddu oherwydd eu hanableddau a'u bod yn ofni camau dialgar gan yr aflonyddwyr;
– Teimlwyd nad oedd heddweision yn cael eu hyfforddi'n ddigonol i ymdrin ag achosion o droseddau casineb a deall anableddau pobl;
– Yr amser a gymerwyd gan yr heddlu i ymateb i achos o drosedd casineb;
– Teimlai rhai nad oeddynt wedi cael gwybod am y gwaith sy'n cael ei wneud gan awdurdodau'r heddlu;
– Yn aml, nid oedd dioddefwyr yn sylweddoli bod eu profiadau'n gyfystyr â throseddau casineb yn erbyn pobl anabl;
– Yr angen am fwy o addysg ac ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc, pobl anabl a'r gymdeithas ehangach o ystyr troseddau casineb yn erbyn pobl anabl a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl o wahanol ffynonellau.
– Gellid defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter, mewn dull cadarnhaol, i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl.

Fel arfer, byddai materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) sy'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl a gofrestrir yn ysgolion y wladwriaeth sydd o oedran ysgol gorfodol. Un o nodau ABCh yw hyrwyddo hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth. Nid yw'r fframwaith ABCh yn crybwyll troseddau casineb yn benodol. Fodd bynnag, cyfrifoldeb ysgolion unigol yw pennu sut yn union y darperir y cwricwlwm. Gellir gweld y fframwaith yn http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/curriculumassessment/arevisedcurriculumforwales/pse/?skip=1&lang=cy

Awgrymiadau ar gyfer gweithredu:

### Cam Gweithredu 7

Gallai awdurdodau'r heddlu yng Nghymru ystyried y pryderon a fynegir a darparu hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl pellach i swyddogion. Dylai'r heddlu ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch i ddioddefwyr troseddau casineb. Dylid cynnig gwybodaeth a chymorth dilynol i unigolion sy'n cwyno wrth yr heddlu am achosion o droseddau casineb a'u hysbysu o'r hyn sy'n digwydd yn yr ymchwiliadau.

### Cam Gweithredu 8

Dylai awdurdodau'r heddlu yng Nghymru sicrhau bod cymorth cyfathrebu ar gael i unigolion sydd â namau ar y synhwyrau, ar y clyw, problemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu er mwyn dangos eu bod yn ystyried yr achos o ddifrif. Dylai awdurdodau'r heddlu yng Nghymru ledaenu'r neges fod cymorth ar gael, pwy all eu helpu a ble y gellir cael gafael arno.

## Cam Gweithredu 9

Gallai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, awdurdodau'r heddlu a grwpiau anabledd a rhwydweithiau cymorth yng Nghymru weithio mewn partneriaeth i ddatblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth er mwyn helpu pobl i adnabod a mynd i'r afael â throseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Gallai hyn gynnwys sut mae sylwi bod trosedd casineb yn erbyn pobl anabl yn digwydd, sut mae trechu troseddau casineb yn erbyn pobl anabl, ble mae cymorth ar gael a chyfrifoldeb y gymdeithas ehangach wrth herio a chael gwared ar bob math o droseddau casineb.

## Cam Gweithredu 10

Gallai'r heddlu ac asiantaethau cymorth fel gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol ei gwneud yn haws i bobl gwyno drwy roi cyfle iddynt ddweud wrth rywun arall yn hytrach na'r heddlu am y digwyddiad, hy gweithiwr ieuenctid, gweithiwr cymdeithasol, athro neu ffordd o roi gwybod am ddigwyddiad yn ddienw drwy sefydliadau fel Cymru Ddiogelach neu sefydliadau anabledd. Gellid gwella cymorth drwy greu gwell cysylltiadau rhwng sefydliadau i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o fynd i'r afael â throseddau casineb. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r broses o roi gwybod am a chofnodi troseddau casineb ar draws y gwahanol sefydliadau. Mae Cymru Ddiogelach yn darparu gwybodaeth a chyngor ar roi gwybod am ddigwyddiadau yn ddienw a chymorth ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb.

## Cam Gweithredu 11

Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori/rhoi rhagor o bwyslais ar adnabod a mynd i'r afael â throseddau casineb fel rhan o'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ysgol gydol eu gyrfa yn yr ysgol. Byddai angen cyfuno hyn gyda gwell hyfforddiant ar gyfer athrawon wrth addysgu am y pwnc ac ymdrin ag achosion o droseddau casineb. Mae angen addysgu pobl ifanc am droseddau casineb, y rhai a allai fod yn ddioddefwyr a'r aflonyddwyr eu hunain.

## Sylwadau'r Wal

Gofynnwyd i ymwelwyr roi eu sylwadau ar y digwyddiad. Dangosir detholiad o'r sylwadau hyn isod:

"Nid yw pleidleisio'n hawdd i bobl sydd â nam ar y golwg; o'r ffurflen gofrestru i'r taflenni gwleidyddol a'r orsaf bleidleisio. Helpwch ni i bleidleisio os gwelwch yn dda!"

"Does dim digon o wleidyddion anabl. Dylai pleidiau gwleidyddol fynd ati i gysylltu â grwpiau pobl anabl a'u hannog i gymryd rhan."

"Dylai cynrychiolwyr etholedig ar bob lefel geisio cynnal cymorthfeydd mewn archfarchnadoedd lleol er mwyn cyfarfod â'u hetholwyr."

"Dylai'r Comisiwn Etholiadol, CLILC a'r Cynulliad Cenedlaethol gysylltu mwy ag ysgolion a'r cyhoedd, a gweithredu mewn ffordd greadigol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broses ddemocrataidd ac annog pobl i gymryd rhan. Dylent ddefnyddio iaith glir, blaen a dealladwy bob amser a sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch".

"Mae yna ddiffyg dealltwriaeth ymysg gwleidyddion o'r problemau gwirioneddol sy'n wynebu grwpiau pobl anabl."

"Mae gen i ormod o ofn cwyno rhag ofn bydd rhywun yn dial arnaf."

"Dylai'r heddlu gael mwy o arian i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl."

"Yn fy mhrofiad i, nid yw'r heddlu yn deall bod rhywbeth sy'n ymddangos yn ddibwys iddyn nhw yn gallu cael effaith enfawr ar fywyd rhywun."

## Ar ôl yr adroddiad – beth nesaf?

**Ble mae copi o'r adroddiad hwn ar gael?**
Bydd yr adroddiad ar gael ar-lein yn www.cynulliadcymru.org/equalities

**Pwy fydd yn derbyn copi o'r adroddiad hwn?**

Anfonir copi o'r adroddiad at:
– bob Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
– ASau Cymru
– Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
– Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
– Grŵp Cynllunio Etholiadau Llywodraeth Cymru
– Comisiwn Etholiadol Cymru
– Cymdeithas Swyddogion Etholiadol Cymru
– pob plaid wleidyddol yng Nghymru
– holl heddluoedd Cymru
– sefydliadau pobl anabl/grwpiau mynediad

**Pobl anabl yn creu newid – dinasyddiaeth weithredol, lledaenu neges yr adroddiad hwn**

Mae pob croeso i bobl anabl a sefydliadau pobl anabl ddosbarthu'r adroddiad hwn a'i ddefnyddio i greu newid cadarnhaol, gwelliannau neu i oresgyn rhwystrau i'r broses etholiadol.

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae mwy o wybodaeth am waith Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, yn enwedig ei waith cyfredol ar hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd a'i waith parhaol ar orsafoedd pleidleisio hygyrch, ar gael yn www.cynulliadcymru.org

### Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae hyn yn golygu bod gan Gymru ei llywodraeth ei hun i greu polisïau a deddfau ar gyfer pobl Cymru o fewn y 20 maes datganoledig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahân i Lywodraeth y DU, sydd â'i phencadlys yn Llundain ac yn cael ei harwain gan y Prif Weinidog. Ewch i'r wefan http://wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy

### Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pedwar awdurdod yr heddlu, y tri awdurdod tân ac achub a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt. Ewch i'r wefan: www.wlga.gov.uk

### Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru

Mae yna bedwar aelod yn perthyn i Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru, sef: Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, Awdurdod Heddlu Gwent, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu De Cymru.

Mae Awdurdodau Heddlu Cymru (AHC) yn gorff sy'n cynrychioli'r pedwar Awdurdod Heddlu yng Nghymru. Prif amcanion Awdurdodau Heddlu Cymru yw:

- Ystyried a gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar blismona yng Nghymru, yn enwedig y rhai hynny sydd o dan reolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Ceisio dylanwadu ar yr agenda blismona ar lefel genedlaethol ar ran Awdurdodau'r Heddlu a chymunedau lleol yng Nghymru;
- Cefnogi Awdurdodau'r Heddlu yn y gwaith o sicrhau gwasanaethau plismona effeithiol ac effeithlon ledled Cymru;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o anghenion plismona a rôl a chyflawniadau Awdurdodau'r Heddlu;
- Cynnal a hyrwyddo egwyddorion atebolrwydd lleol a phlismona drwy gydsyniad.

Ewch i'r wefan: http://paw.swpdevelopment.co.uk/

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru**
Mae gan y Comisiwn linell gymorth sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad ar faterion gwahaniaethu a hawliau dynol.
Prif rif Cymru: 0845 604 8810
Ffôn testun Cymru: 0845 604 8820
Ffacs Cymru: 0845 604 8830
Dydd Llun – Dydd Gwener 08.00 – 18.00

Llinell gymorth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Rhadbost RRLR-UEYB-UYZL
3ydd Llawr
3 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT
e-bost: waleshelpline@equalityhumanrights.com
gwefan: www.equalityhumanrights.com/hafan

**Gwasanaeth Erlyn y Goron**
Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron ddatganiad polisi (sydd ar gael mewn fformat Easy Read hefyd) sy'n egluro sut y mae'n mynd i'r afael ag achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl:
www.cps.gov.uk/publications/prosecution/disability.html

**Etholiadau a phleidleisio**

I gael mwy o wybodaeth am gofrestru i bleidleisio ac am bleidleisio ewch i www.aboutmyvote.co.uk/default.aspx?lang=cy-gb

Scope – Ymgyrch Etholiadau'n Eithrio ar gyfer Democratiaeth Hygyrch
www.pollsapart.org.uk/index.php

Mencap – Ymgyrch 'Get My Vote'
www.mencap.org.uk/case.asp?id=12840&menuId=&pageno=

Canllaw pleidleisio Easyread Mencap:
www.mencap.org.uk/document.asp?id=12634

Speaking Up: Ymgyrch 'Promote the Vote' – Gwefan sy'n rhoi gwybodaeth am bleidleisio i bobl sydd ag anableddau dysgu:
www.promotethevote.co.uk/

Comisiwn Etholiadol Cymru – Corff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU gyda'r nod o sicrhau uniondeb a hyder cyhoeddus yn y broses ddemocrataidd www.electoralcommission.org.uk/cymru

**Rhoi gwybod am droseddau casineb yn erbyn pobl anabl**
I roi gwybod am unrhyw fath o droseddau casineb, gallwch ddefnyddio Cymru Ddiogelach neu roi gwybod yn uniongyrchol i'r heddlu lleol. Hefyd, mae Mencap yn cynnal ymgyrch yn erbyn troseddau casineb yn erbyn pobl anabl.

Cymru Ddiogelach
www.saferwales.com/form.asp?i=1

Heddlu De Cymru
www.south-wales.police.uk/en/content/cms/help-and-advice/victims/hate-crime/

Heddlu Dyfed-Powys
www.dyfed-powys.police.uk/cy/advice/hatecrime/

Heddlu Gogledd Cymru
www.north-wales.police.uk/nwpv2/cy/diversity/raceHate.asp

Heddlu Gwent
www.gwent.police.uk/info_point/hatecrimereporting.htm

Mencap
www.mencap.org.uk